# Galwad

Lectio Divina

Mae'r arfer gweddigar hwn yn seiliedig ar *Lectio Divina*, dull o fyfyrio ar ddarnau o'r ysgrythur.

## Darllen

Cymerwch amser i fod yn dawel (Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw, Salm 46:10). Gwahoddwch yr Ysbryd Glân i arwain eich darllen o'r Ysgrythur. Darllenwch y darn yn araf sawl gwaith.

## Myfyrio

Myfyriwch, yn hytrach na dadansoddi, gan geisio'r hyn all Duw ei amlygu trwy'r Ysbryd Glân. Sylwch ar unrhyw beth sy'n sefyll allan a myfyriwch gyda Duw am yr ystyr i chi.

## Gweddïo

Siaradwch â Duw am yr hyn yr ydych wedi myfyrio a sylwi arno, nid i geisio datrysiadau neu atebion, ond i gael perthynas ddyfnach â Duw.

## Ystyried

Arhoswch ym mhresenoldeb Duw mewn tawelwch. Gollyngwch eich dyheadau a chaniatewch i Dduw eich cadarnhau a siarad â chi. Dyma amser i fod gyda Duw, ar delerau Duw ac o dan ei arweiniad.

## Awgrymiadau am ddarlleniadau

| | | |
|---|---|---|
| Effesiaid 4:1-7 | Marc 1:16-20 | Luc 3:10-11 |
| Rhufeiniaid 12:3-8 | 2 Thesaloniaid 1:11-12 | Mathew 25:34-36 |
| Jeremeia 29:11-14 | Genesis 12:1-3 | 1 Corinthiaid 12:7-10 |
| Luc 4:14-21 | 2 Pedr 1:10-11 | Salm 37:3-5 |
| Ioan 15:9-17 | 2 Corinthiaid 5:17-20 | Salm 145:14-21 |
| Colosiaid 3:23-24 | Colosiaid 3:17 | Ioan 16:22-24 |
| Mathew 28:16-20 | Diarhebion 14:21 | Actau 13:1-5 |

The Methodist Church

methodist.org.uk/vocations